OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 No. 1983

## Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013

*Dyroddi hysbysiadau cosb*

**Awdurdod i ddyroddi hysbysiadau cosb**

**10.**—(1) Caiff pennaeth awdurdodi dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol i ddyroddi hysbysiadau cosb.

(2) Ond ni chaiff pennaeth awdurdodi unrhyw aelod arall o staff i ddyroddi hysbysiadau cosb.

**Cyfyngiad ar ddyroddi hysbysiadau cosb gan ysgolion**

**11.** Dim ond mewn cysylltiad â phlentyn sy'n ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol lle y mae'n gweithio y caiff pennaeth neu ddirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol, yn ôl y digwydd, ddyroddi hysbysiad cosb.

**Cyfyngiad ar ddyroddi hysbysiadau cosb gan awdurdodau lleol**

**12.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), ni chaiff swyddog awdurdod lleol ddyroddi hysbysiad cosb mewn cysylltiad â phlentyn, ac eithrio—

(a) plentyn sy'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol yn ardal yr awdurdod hwnnw;

(b) plentyn y mae'r awdurdod hwnnw wedi gwneud trefniadau darpariaeth addysgol amgen ar ei gyfer (p'un ai yn ardal yr awdurdod hwnnw ai peidio); neu

(c) plentyn, ar yr adeg y rhoddir yr hysbysiad, nad yw'n ddisgybl cofrestredig mewn unrhyw ysgol (p'un a yw hynny oherwydd gwaharddiad parhaol neu fel arall) ond sy'n preswylio yn ardal yr awdurdod hwnnw.

(2) Pan fo awdurdod lleol wedi gwneud cytundeb ag awdurdod lleol arall i swyddog yr awdurdod arall hwnnw ddyroddi hysbysiadau cosb mewn cysylltiad â phlentyn y mae paragraff (1)(a) neu (b) yn gymwys iddo, caiff swyddog o'r awdurdod arall hwnnw ddyroddi hysbysiad cosb mewn cysylltiad â'r plentyn hwnnw.

**Nifer o hysbysiadau cosb mewn cysylltiad â'r un drosedd**

**13.** Pan fo mwy nag un person yn agored i gollfarn am drosedd, caniateir dyroddi hysbysiad cosb ar wahân i bob person.